



GWASANAETH MABWYSIADU GOGLEDD CYMRU

1.1

DATGANIAD O DDIBEN

IONAWR 2017



Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
DATGANIAD O DDIBEN

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Datganiad O Ddiben	3
3. Canllaw Plant	4
4. Datganiad Cenhadaeth	4
5. Nodau, amcanion a swyddogaethau	4
6. Gwerthoedd	5
7. Statws a Chyfansoddiad	6
8. Partneriaethau Asiantaethau Mabwysiadu	6
9. Trefniadau i fonitro a gwerthuso ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau a chyfleusterau'r Asiantaeth	6
10. Gwasanaethau i Blant	7
11. Recriwtio, cymeradwyo, hyfforddi, cefnogi ac adolygu mabwysiadwyr	11
12. Y Panel Mabwysiadu	15
13. Mabwysiadu gydag Elfen Dramor	16
14. Gofalwyr Maeth sy'n dymuno Mabwysiadu	17
15. Mabwysiadu gan Bartner Rhiant/Lys Rhiant	17
16. Gwasanaethau i Deuluoedd Naturiol	17
17. Gwasanaethau Cyfryngol	18
18. Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu i Oedolion sydd wedi eu Mabwysiadu	19
19. Sylwadau a chwynion	21
20. Adolygiad Annibynnol y Penderfyniad	21
21. Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	21
22. Manylion Cyswllt Gwasanaeth ac Asiantaethau	23
23. Strwythur Sefydliadol	24
24. Staff	25

1. Cyflwyniad

Daeth Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn weithredol ar 1af Ebrill 2010 ac mae wedi ei sefydlu i gynnig gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran ardaloedd awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Ers mis Ebrill 2014 mae'r gwasanaeth wedi'i integreiddio yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a safonau gofynnol cenedlaethol mabwysiadu ac yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth, o fewn yr adnoddau a ddyrennir.

O dan delerau Cytundeb Partner, mae pob asiantaeth fabwysiadu'n aelodau o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ac, thrwy hynny, wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau mabwysiadu'n unffurf ar sail ranbarthol, er mwyn cynyddu'r amrediad a'r dewis o fabwysiadwyr ar gyfer plant sydd angen eu rhoi i'w mabwysiadu. Lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn ddymunol, bydd plant sydd angen rhieni i'w mabwysiadu yn cael eu lleoli o fewn ardal Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

2. Datganiad O Ddiben

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn wedi ei ddatblygu yn unol â Safon 1 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2007 a Rheol 3 ac Atodlen 1 Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdod Lleol (Cymru) 2007, ac mae'n bodloni'r gofynion gwybodaeth sydd ynddynt.

Mae'r deddfau statudol yma'n gofyn i asiantaethau mabwysiadu gynhyrchu Datganiad o Ddiben sy'n dweud beth yw nodau ac amcanion gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol a sut y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau ei fod yn bodloni'r nodau a'r amcanion rheiny.

Mae'n rhaid i'r awdurdod ddarparu copi o'r Datganiad o Ddiben i'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n rhaid i gopi fod ar gael, o wneud cais amdano, i:

- Unrhyw un sy'n gweithio at ddiben y gwasanaeth mabwysiadu;
- Plant all fod wedi eu mabwysiadu;
- Rhieni a gwarchodwyr plant all fod wedi eu mabwysiadu;
- Rhywun sy'n dymuno mabwysiadu plentyn;
- Rhieni naturiol a chyn warchodwyr rhywun sydd wedi ei fabwysiadu;
- Rhywun sydd wedi ei fabwysiadu;
- Rhieni sy'n mabwysiadu;
- Unrhyw un sy'n ceisio gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Caiff y Datganiad o Ddiben ei adolygu a'i ddiweddarau o leiaf bob blwyddyn. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wybod am unrhyw adolygiad o fewn 28 diwrnod.

3. Canllaw Plant

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn wedi ei ddatblygu yn unol â Safon 2 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2007 a Rheol 4 ac Atodlen 2 Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdod Lleol (Cymru) 2007.

Mae'r Canllaw Plant ar gael mewn amrywiol ffurfiau er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bob plentyn y gwneir cynllun mabwysiadu ar ei gyfer.

Mae'r Canllaw Plant yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn unol ag Atodlen 2 a Safon 2 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod ddarparu copi i:

- Y Cynulliad Cenedlaethol
- Pob darpar fabwysiadwr y mae'r awdurdod wedi rhoi plentyn i'w fabwysiadu iddynt; a
- Phob plentyn (yn amodol ar oedran a dealltwriaeth y plentyn), all fod neu sydd wedi ei roi i'w fabwysiadu gan yr awdurdod.

Caiff y Canllaw Plant ei adolygu a'i ddiweddarau o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wybod am unrhyw adolygiad o fewn 28 diwrnod.

4. Datganiad Cenhadaeth

'Dylai plant na all eu teuluoedd eu hunain ofalu amdanynt gael cynnig mabwysiadu fel dewis er mwyn cael cartrefi diogel, gyda chefnogaeth a sicrwydd er mwyn gofalu amdanynt hyd nes y byddant yn oedolion. Mae angen unigol plentyn am gartref cariadus sy'n parchu eu hunaniaeth ac yn cynnig budd iddynt, wrth wraidd gweithgarwch yr asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

5. Nodau, Amcanion a Swyddogaethau

1. O dan y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 mae pob awdurdod lleol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn asiantaeth fabwysiadu cymeradwy ac yn destun i:
 - Rheoliadau Mynediad at Wybodaeth (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2002;
 - Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005
 - Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005,
 - Rheoliadau Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005
 - Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007
 - Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2007,

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygiad) 2012
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygiad) 2014
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

- 1.
2. Nod y gwasanaeth yw cynnig gwasanaeth mabwysiadu cynhwysfawr yn unol â'r statws, rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol uchod, ac fel y disgrifir yn y dogfennau polisi a gweithdrefnau.
3. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ymorol am baneli mabwysiadu ar ran Sir y Fflint/Wrecsam; Conwy/Sir Ddinbych a Gwynedd/Ynys Môn. Mae pob panel yn gwneud argymhellion i'r asiantaeth ar y materion canlynol:
 - (a) A ddylai plentyn sy'n cael ei ildio gael ei fabwysiadu
 - (b) A yw'r ymgeiswyr yn addas i fabwysiadu
 - (d) A ddylid rhoi'r plentyn gyda mabwysiadwr/mabwysiadwyr penodol
4. Nod y gwasanaeth yw darparu amrediad o wasanaethau naill ai'n uniongyrchol neu mewn cydweithrediad gydag asiantaethau addas eraill er mwyn adnabod plant sydd angen cartref mabwysiadu, i recriwtio, hyfforddi ac asesu darpar fabwysiadwyr a chydweddu plant yn ofalus gyda mabwysiadwyr fydd yn bodloni anghenion y plentyn.
5. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i gymhwyso gwerthoedd tebyg a safonau ansawdd ar draws pob math o fabwysiadu: domestig, mabwysiadu gydag elfen dramor, a phartner i riant.
6. Nod y gwasanaeth yw darparu ystod o wasanaethau i gefnogi mabwysiadwyr a'u plant ar ôl iddynt fabwysiadu.
7. Mae gan y gwasanaeth amrediad o daflenni gwybodaeth yn ymwneud a'i wasanaethau ac mae'r rhain ar gael i bawb a effeithir gan fabwysiadu.
8. Mae'r gwasanaeth yn anelu at ddarparu gwasanaeth cwnsela, rhoi mynediad at gofnodion a Gwasanaeth Cyfryngol i oedolion mabwysiedig.
9. Mae gan y gwasanaeth ystod o daflenni gwybodaeth yn ymwneud â'i wasanaethau ac mae'r rhain ar gael i bawb a effeithir gan fabwysiadu.

6. Gwerthoedd

Mae polisiâu a gweithdrefnau'r gwasanaeth wedi eu seilio ar y gwerthoedd canlynol:

- Mae gan blant hawl i gael eu magu'n rhan o deulu cariadus sy'n gallu bodloni eu hanghenion yn ystod plentyndod a thu hwnt i hynny.
- Mae'n well i blant, lle bo modd, gael eu magu gan eu teulu naturiol.
- Bydd lles, diogelwch ac anghenion y plentyn yn ganolog i'r broses fabwysiadu.

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

- Bydd dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael sylw gofalus ac ystyriaeth lawn drwy bob cam.
- Gall oedi wrth fabwysiadu gael effaith ddifrifol ar iechyd a datblygiad plant ac osgoir hynny lle bo modd.
- Bydd tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, crefydd ac iaith plant yn cael eu cydnabod yn llawn a rhoddir gwerth cadarnhaol arnynt a'u hyrwyddo wrth wneud penderfyniadau.
- Caiff anghenion penodol plant anabl eu cydnabod yn llawn a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau.
- Bydd rôl rhieni mabwysiadu wrth gynnig teulu parhaol i blentyn na all fyw gyda'i rieni naturiol yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu.
- Mae oblygiadau gydol oes i fabwysiadu ar gyfer pawb sy'n rhan ohono, ac mae'n gofyn am ymrwymiad cydol oes gan sawl sefydliad gwahanol, gweithwyr proffesiynol ac unigolion sy'n gorfod gweithio gyda'i gilydd i ateb gofynion y rhai y mae mabwysiadu'n effeithio arnynt.

7. Statws a Chyfansoddiad

Mae pob asiantaeth fabwysiadu unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn rhan o'i gyngor sir ei hun. Mae aelodau etholedig yn cadarnhau polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud a phob asiantaeth fabwysiadu unigol.

8. Partneriaethau Asiantaethau Mabwysiadu

- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Adoption UK
- Link Maker
- AFA Cymru
- Coram/BAAF
- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Plant ac Iechyd Meddwl
- Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc

9. Monitro ac Adolygu

Yn unol â Rheol 22 Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdod Lleol **Cymru** 2007, mae'r gwasanaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer adolygu blynyddol a monitro parhaus ar ansawdd y gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir.

Yn hyn o beth, mae'r gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth i farn y darparwyr gwasanaeth a'r staff.

O fewn 28 diwrnod o gynnal yr adolygiad, bydd y gwasanaeth yn paratoi adroddiad o'r adolygiad hwnnw a bydd copi ar gael pan wneir cais amdano gan y Cynulliad Cenedlaethol; defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr a staff.

Yn ogystal â hyn, mae'r gwasanaeth wedi gwneud y trefniadau canlynol i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau:

Monitro

- (a) Mae'r gwasanaeth mabwysiadu'n destun holl systemau monitro ac adolygu'r Cyngor Sir. Defnyddir prosesau archwilio mewnol yn ogystal ag archwiliadau rheoli a'r polisi goruchwyllo staff. Mae polisi pob Cyngor ynglŷn ag archwilio ariannol, adnoddau dynol a materol cyllidebol yn gymwys i'r gwasanaeth mabwysiadu.
- (b) Mae gan bob aelod o staff sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth mabwysiadu gytundeb goruchwyllo ac maen nhw'n derbyn goruchwylloeth o leiaf bob mis.
- (c) Bydd Pennaeth Gwasanaethau Plant / Prif Swyddog Diogelu a Chymorth neu rywun cyfatebol yn comisiynu adroddiadau rheolaidd yn ymwneud a gweithredu'r gwasanaeth ac yn adolygu'r adroddiadau gydag aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Adrannol a Bwrdd Partneriaeth gwasanaeth mabwysiadu Gogledd Cymru.
- (d) Darperir adroddiad blynyddol ar y gwasanaeth mabwysiadu i aelodau etholedig ac i aelodau o'r panel mabwysiadu, sy'n rhoi manylion y canlyniadau a gyflawnwyd a'r cynigion ar gyfer datblygiadau newydd mewn gwasanaethau.
- (e) Caiff data perfformiad ei gasglu a'i ddychwelyd at y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o drefniadau adrodd ar ddangosyddion perfformiad y gwasanaeth cyfan.
- (f) Mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno a'i fonitro bob chwarter gan y Tîm Rheoli Gweithredol sy'n cynnwys rheolwr gwasanaeth o bob awdurdod yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ddarparu i Fwrdd Craffu pob awdurdod lleol, aelodau'r panel a Bwrdd y Farnwriaeth hefyd.

Gwasanaethau o Ansawdd

- (a) Mae darparu gwasanaethau o ansawdd dda yn ganolog i'r broses fabwysiadu ac mae polisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn pwysleisio'r nod hon.
- (b) Mae unrhyw wasanaethau mabwysiadu a gomisiynir neu a gytundebir yn destun gweithdrefnau cytundebu a chytundebau lefel gwasanaeth y Cyngor yr Awdurdod (Wrecsam) sy'n comisiynu.

Polisiau a Gweithdrefnau

- (a) Caiff y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, paratoi, asesu, cymeradwyo a chefnogi mabwysiadwyr eu hadolygu'n rheolaidd fel y caiff deddfau a rheolau newydd eu cyflwyno.
- (b) Bydd pob aelod o'r cyhoedd sy'n holi ynglŷn â bod yn fabwysiadwr posibl yn cael gwybodaeth ysgrifenedig yn amlinellu'r broses.

- (c) Cyhoeddir gweithdrefnau panel mabwysiadu i aelodau'r panel i gyd.
- (d) Caiff polisi ac arferion cymorth mabwysiadu eu hadolygu'n rheolaidd wrth i ddeddfau a rheoliadau newydd gael eu cyflwyno.

10. Gwasanaethau i Blant

Mae pob awdurdod lleol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn dal yn gyfrifol am y gwaith sydd ei angen i baratoi plant i'w mabwysiadu. Bydd plant y mae eu statws 'i gael ei fabwysiadu' wedi ei gadarnhau gan y Benderfynwr Asiantaeth yn dilyn argymhelliad y panel mabwysiadu, yn cael ei gyfeirio at Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru at ddibenion cydweddu. Bydd gweithwyr cymdeithasol gofal plant a gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i nodi rhieni mabwysiadu addas a chefnogi'r broses gyflwyno.

Paratoi'r Plentyn ar gyfer Mabwysiadu

Mae pob asiantaeth unigol o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod pwysigrwydd paratoi plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Mae'r broses yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu, gofalwyr maeth, gweithwyr proffesiynol ieuchyd, athrawon ac aelodau teulu naturiol y gallent fod yn gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu gael cysylltiad gyda'r plentyn yn ystod y broses baratoi. Bydd y gwasanaeth yn cefnogi gwaith pob un sy'n rhan o'r cynllunio a'r paratoi drwy:

- (a) Ddynodi gweithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol.
- (b) Leihau'r oedi pan fydd mabwysiadu wedi ei nodi fel cynllun parhaol i'w plentyn
- (c) Aseu'r angen am wasanaethau cymorth mabwysiadu ar gyfer y plentyn a'r teulu mabwysiadu

Bydd yr asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn helpu'r plentyn i ddeall y rhesymau pam y maent i dderbyn gofal a pham na all ef/hi ddychwelyd i fyd gyda'i deulu naturiol. Mae pob plentyn y penderfynir mai mabwysiadu yw eu cynllun parhaol, yn cael eu deunydd darllen perthnasol a chopi o'r canllaw plant sy'n berthnasol i'w grŵp oedran.

Mae'r wybodaeth wedi ei bwriadu i roi gwybodaeth i blant mewn iaith sy'n hawdd ei deall, am y broses fabwysiadu o'i chychwyn i'w diwedd.

Lle bo hynny'n briodol, mae'n bosibl y bydd plant yn cael gwybodaeth am ddarpar fabwysiadwyr sydd wedi'u nodi ar eu cyfer. Gall y wybodaeth hon gael ei rhoi ar ffurf ffotograffau neu recordiadau DVD.

Ar gyfer plant sy'n ddigon hen ac yn gallu deall, rhoddir cwnsela ar ffurf ac mewn iaith sy'n eu galluogi i ddeall yn glir yr wybodaeth a roddir a thrafod unrhyw fater sy'n codi ohono. Bydd y cwnsela yn hynod sensitif i ethnigrwydd a chredoau crefyddol plentyn.

Caiff pob plentyn sy'n ddigon hen ac yn deall yn llawn, eu hannog i fynychu'r cyfarfodydd adolygu derbyn gofal, a rhannu eu barn ynddynt. Caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu cynnwys hefyd yn Adroddiad Asesu'r Plentyn ar gyfer Mabwysiadu a gaiff ei gyflwyno i'r panel mabwysiadu.

Rhoddir gwybodaeth am hanes bywyd y plentyn drwy lyfrau stori bywyd, sy'n atgyfnerthu ymdeimlad y plentyn o hunaniaeth a'u dealltwriaeth o'r dreftadaeth wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Dod o hyd i Deulu a Chydweddu

Mae plant gaiff eu cyfeirio er mwyn eu rhoi i'w mabwysiadu neu blant sy'n destun olrhain gefeilliaid, yn cael gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru fydd yn gwneud y rol o ddod o hyd i deulu.

Mae'r Weithdrefn Dod o hyd i Deulu a Chydweddu fel a ganlyn:

- (a) Caiff y gwasanaeth wybod am unrhyw blentyn sy'n debygol o gael ei fabwysiadu yn syth ar ôl yr adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal sy'n cytuno ar gynllun mabwysiadu.
- (b) Unwaith y bydd y penderfyniad 'y dylid mabwysiadu' wedi'i gadarnhau, bydd y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn ei atgyfeirio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a bydd chwiliad yn cael ei gynnal o'r gronfa ddata o fabwysiadwyr cymeradwy er mwyn adnabod unrhyw fabwysiadwyr posibl.
- (c) Penodir gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i wneud y gweithgareddau dod o hyd i deulu.
- (d) Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu'n gweithio gyda'i gilydd i adnabod teuluoedd i'w hystyried ar gyfer y plentyn a chynnal ymweliadau ar y cyd a'r mabwysiadwyr posibl.
- (e) Dewisir un teulu fel un sy'n cydweddu a'r plentyn mewn cyfarfod cydweddu.
- (f) Caiff cydweddiad gyda rhieni mabwysiadu addas ei adnabod a'i gymeradwyo gan y panel o fewn 6 mis i'r asiantaeth gytuno y dylid lleoli'r plentyn i'w fabwysiadu, cyn belled nad yw'r amserlen hon yn cael ei heffeithio gan ffactorau allanol megis achosion llys neu faterion cymhleth wrth gydweddu.
- (g) Caiff pob plentyn ei atgyfeirio i Gofrestr Fabwysiadu Cymru cyn pen 3 mis ar ôl i'r panel argymhell hynny ac ar ôl i'r asiantaeth gymeradwyo eu cynllun mabwysiadu, os nad ydynt wedi eu lleoli neu os nad oes cydweddiad lleol yn cael ei ddilyn. Mewn rhai achosion caiff plant eu hatgyfeirio ar unwaith yn dibynnu ar anghenion penodol y plentyn/plant.

Mae gan y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu nifer o gyfrifoldebau allweddol:

- (a) Gweithio ar y cyd gyda'r gweithiwr cymdeithasol gofal plant i ddatblygu llun clir o anghenion penodol y plentyn fel y gellir dod o hyd i deulu priodol.
- (b) Bod yn rhagweithiol wrth geisio adnabod cynifer a phosibl o gydweddiadau addas.
- (c) Gweithio ar y cyd gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn wrth gyflwyno unrhyw gydweddiad a gynigir i'r panel mabwysiadu.

Lle bo hynny er budd y plentyn, bydd yr asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ceisio lleoli'r plant gyda theuluoedd mabwysiadu o fewn ardal Gogledd Cymru. Ond, efallai y bydd yn rhaid lleoli rhai plant ymhell o'u cymunedau gwreiddiol er eu lles a'u hamddiffyniad hwy.

Bydd pob plentyn wedi cofrestru â Chofrestr Mabwysiadu Cymru a byddant yn cael eu hatgyfeirio os ydynt wedi methu â chael eu cydweddu'n lleol neu'n rhanbarthol ar ôl 3 mis.

Diogelu'r Plentyn

Nid yw amddiffyn plant yn benodol nac ar wahân i leoli gyda theulu gan gynnwys lleoli i fabwysiadu.

“Mae'n rhaid i blant sy'n byw oddi cartref gael yr un lefel o amddiffyniad a phlant sy'n byw gyda'u teulu.”

(Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2007 4.2 t. 277).

Gall plant a roddir i'w mabwysiadu fod yn agored iawn i niwed ac mae ganddynt yr un anghenion diogelu a hawliau a phlant eraill. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd y gofynion diogelu, ymweld ac adolygu.

Mae'n hanfodol bod plant gaiff eu rhoi i'w mabwysiadu'n cael eu diogelu, eu monitro a'u hadolygu a bod ganddyn nhw a'u darpar fabwysiadwyr fynediad at gyngor a chymorth.

Darparu Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

Ar ôl i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei wneud ac yn dibynnu ar ei anghenion asesedig, gall plentyn dderbyn gwybodaeth anuniongyrchol am ei deulu naturiol drwy gyfrwng system gysylltu Letterbox y gwasanaeth. Mae'r holl drefniadau Letterbox yn canolbwyntio'u sylw ar y plentyn ac mae'n rhaid rhoi lles y plentyn yn gyntaf. Caiff mabwysiadwyr a rhieni naturiol eu hannog i ddeall pan fydd plentyn hyn yn nodi nad yw ef neu hi yn dymuno i'r cyfnewid gwybodaeth barhau, dylid parchu eu dymuniadau. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn goruchwyllo'r system a throsglwyddir gwybodaeth rhwng aelodau o'r teulu naturiol (gan gynnwys brodyr a chwiorydd) a phlant neu fabwysiadwyr ar ran plant. Caiff manylion y math o wybodaeth sydd i'w chyfnewid, ynghyd ag amllder y cyfnewid ei nodi mewn cytundeb ysgrifenedig a bydd pob ochr yn ei arwyddo a disgwylir iddynt gadw ato.

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Caiff aelodau o'r teulu naturiol gymorth i ysgrifennu llythyrau i'w gosod yn ffeil plentyn sydd wedi ei fabwysiadu. Os nad yw'r rhiant naturiol yn dymuno i weithiwr cymdeithasol awdurdod lleol wneud y dasg hon gyda nhw, cyfeirir at y darparwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu sydd dan gytundeb.

Mae'r asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cynnig cymorth mabwysiadu'n unol a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a Chanllaw Statudol 2006. Caiff anghenion y plentyn am wasanaethau cymorth mabwysiadu eu hasesu ar wahanol adegau o'r broses fabwysiadu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Pan fydd yr asiantaeth unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ystyried a ddylid 'rhoi'r plentyn i'w fabwysiadu.'
- Pan wneir y cynnig bod y plentyn yn cael ei leoli gyda darpar fabwysiadwyr penodol.
- Pan fydd lleoliad mabwysiadu plentyn yn cael ei adolygu.

Os oes gwasanaethau cymorth mabwysiadu i'w cynnig ar fwy nag un achlysur, ac nid ydynt wedi eu cyfyngu i ddarparu cyngor a gwybodaeth, cynhyrchir cynllun cymorth mabwysiadu.

Lle bo'n briodol, gwneir hyn mewn ymgynghoriad a gwasanaethau megis addysg neu iechyd.

Nod bennaf darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yw hyrwyddo llwyddiant lleoliadau mabwysiadu. Os oes perygl bod rhywbeth yn mynd i darfu ar leoliad mabwysiadu, cynhelir cyfarfod cyn gynted â phosibl i adolygu'r cymorth a roddir i'r lleoliad, gyda'r nod o atal chwalu'r lleoliad. Os nad yw'r lleoliad yn chwalu, cynhelir cyfarfod tarfu er mwyn deall y ffactorau sy'n effeithio ar y canlyniad ac er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer lleoliad yn y dyfodol.

11. Recriwtio, cymeradwyo, hyfforddi, cefnogi ac adolygu mabwysiadwyr.

Recriwtio

- Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn ymwybodol o natur gyfnewidiol demograffeg yr ardal leol ac yn croesawu ceisiadau i fod yn rhieni mabwysiadu waeth beth fo'ch rhyw, rhywedd, statws priodasol, hil, crefydd, anabledd, a diwylliant neu statws gwaith. Wrth fodloni anghenion plant unigol, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod yr angen i ddarparu amrediad amrywiol a dewis o rieni mabwysiadu.
- Bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn datblygu amrediad o ddeunyddiau recriwtio ac yn trefnu digwyddiadau hyrwyddo lleol, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol yn rhanbarthol.

- Croesawir ceisiadau gan unrhyw un sydd dros 21 oed a bydd pawb sy'n holi yn derbyn ymateb personol gan swyddog recriwtio penodol. Lle bo hynny'n bosibl, anfonir taflen wybodaeth a ffurflen ymateb cyn pen 5 diwrnod (cyn pen 24 awr fel arfer os yw hynny'n bosibl) a gwneir cyswllt pellach ar ôl derbyn y ffurflen ymateb rhwng 7 ac 14 diwrnod.
- Ar ol derbyn y ffurflen ymateb, bydd y swyddog recriwtio neu weithiwr cymdeithasol mabwysiadu yn trefnu ymweliad i gychwyn gyda'r darpar fabwysiadwr/wyr. Pwrpas yr ymweliad yw rhoi mwy o wybodaeth i ddarpar fabwysiadwr a'u teulu ynglŷn â mabwysiadu, cynnal cyfweiliad cychwynnol ac ateb unrhyw gwestiynau allai'r darpar fabwysiadwr fod am eu holi ar y pryd.
- Mae gwybodaeth bellach am fod yn rhiant mabwysiadu, gan gynnwys canllaw cam wrth gam ar gael ar wefan **www.northwalesadoption.gov.uk/ Rhadffôn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru: 0800 085 0774**

Asesu a Chymeradwyo

Mae'r asesiad gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i ddod yn fabwysiadwr sydd wedi ei gymeradwyo yn golygu 3 cham:

1. Profion diogelu

- Mae gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais ar gyfer ymholiadau uwch gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Hefyd, gofynnir am ganiatâd ysgrifenedig er mwyn caniatáu i nifer o wiriadau gael eu gwneud ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr NSPCC, y Gwasanaeth Prawf, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Iechyd, AGGCC ac unrhyw asiantaeth statudol arall sy'n berthnasol i'r teulu penodol.
- Bydd angen gweld tystysgrifau geni, priodi ac ysgaru hefyd yn ogystal ag unrhyw basbort neu drwydded gyrru er mwyn gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd □ Gwneir gwiriad o hanes cyflogaeth ymgeisydd.
- Bydd angen enwau a chyfeiriadau 6 o ganolwyr personol a fydd yn cael cais i ddarparu geirdaon ysgrifenedig. Ymwelir â 4 o'r canolwyr hyn hefyd.
- Os oes gan yr Ymgeisydd(Ymgeiswyr) blant oedran cyn-ysgol neu oedran ysgol, cysylltir â'r Ymwelydd Iechyd neu'r Pennaeth ysgol perthnasol.
- Os yw'r Ymgeisydd (Ymgeiswyr) mewn gwaith, gofynnir am eirida gan eu cyflogwr
- Os yw'r Ymgeisydd (Ymgeiswyr) wedi bod mewn perthynas flaenorol, cysylltir â'r partneriaid blaenorol

2. Hyfforddiant Paratoi

Bydd gofyn i ymgeiswyr fynychu cwrs hyfforddi i baratoi. Os yw cyplau'n gwneud cais, disgwylir i'r ddau fynychu. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru defnyddio'r rhaglen hyfforddi Paratoi i Fabwysiadu a argymhellir gan Gymdeithas Fabwysiadu a Maethu Prydain. Mae hyfforddiant grwpiau paratoi yn digwydd ar draws yr asiantaethau o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mae'r hyfforddiant yn digwydd dros bedwar diwrnod a dyma'r prif bynciau a drafodir:

- Gweithdrefnau'r asiantaeth fabwysiadu yn ymwneud ag asesu mabwysiadwyr posibl a lleoli plentyn i'w fabwysiadu
- Y broses gymeradwyo a mabwysiadu gan gynnwys y drefn gyfreithiol o ran lleoli i fabwysiadu
- Arwyddocâd ac oblygiadau cyfreithiol mabwysiadu i blentyn a'i deulu ef / hi
- Cyswllt rhwng y plentyn a'r rhieni naturiol neu berthnasau
- Y plant sydd angen eu mabwysiadu gan gynnwys amrediad oedran, rhyw ac anghenion a chefnidir tebygol.
- Diogelu'r plentyn.
- Hunaniaeth a materion cyswllt
- Ymlyniad
- Y sgiliau sydd eu hangen i fod yn rhiant mabwysiadu
- Gwasanaethau cymorth mabwysiadu
- Deall ymlyniad a gwrthsafiad oedolyn
- Agweddau rhyngwladol, os yw'n berthnasol.
- Rol y Panel Adolygu Annibynnol

Mae rhiant mabwysiadu a chynrychiolwyr o asiantaethau partner yn mynychu er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n derbyn hyfforddiant ac asesiad a'u helpu i ateb cwestiynau darpar fabwysiadwyr.

Hyfforddiant Pellach a Ddarperir gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

- Teulu a Ffrindiau
- Anhwylderau Sbectrwem Alcohol y Foetws
- Trawma ymlyniad a niwrowyddoniaeth
- Rhaglen Rianta

3. Astudiaeth o'r Cartref

Gan ddefnyddio ffurf Adroddiad Darpar Fabwysiadwr, bydd y gweithiwr cymdeithasol sy'n gwneud yr asesiad yn archwilio ysgogiad a dealltwriaeth yr ymgeisydd o fabwysiadu, eu hagweddau, disgwyliadau a'u ffordd o fyw, eu gweithgareddau hamdden, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol a'u dealltwriaeth o faterion gwahaniaethu. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gyfleusterau'r gymuned a mynediad at wasanaethau Addysg ac Iechyd.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr hefyd gwblhau portffolio tystiolaeth a gyflwynir i'r panel yn y cyfnod cymeradwyo

Cymeradwyaeth

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Yn dilyn cwblhau tri cham y broses asesu yn llwyddiannus, cyflwynir adroddiad i'r panel mabwysiadu am argymhelliad a yw'r darpar fabwysiadwyr yn 'addas i fabwysiadu'. Bydd yr ymgeiswyr wedi cael cyfle i ddarllen a gwneud sylwadau ar yr adroddiad cyn y panel, a chant eu gwahodd i fynychu'r panel.

Mae mwyafrif aelodau'r panel mabwysiadu, gan gynnwys y Cadeirydd yn annibynnol o'r asiantaeth fabwysiadu a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, ac maen nhw'n gweithredu rol sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cadw.

Yn dilyn argymhelliad gan y panel mabwysiadu, caiff y penderfyniad terfynol ynglŷn â chymeradwyo ei ystyried gan benderfynwr yr asiantaeth berthnasol, Prif Swyddog Diogelu a Chymorth Wrecsam (neu rywun cyfatebol yn yr asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru). Caiff y penderfyniad ei gyfathrebu wedyn ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r darpar fabwysiadwyr yn unol â'r amserlenni a ragnodwyd.

Caiff mabwysiadwyr eu cymeradwyo ar sail gyffredinol; ond dylai'r asesiad adlewyrchu cryfderau'r mabwysiadwyr, eu hamgylchiadau, eu hymrwymadau a'r llety sydd ar gael. Gellir newid hyn i adlewyrchu unrhyw newid mewn amgylchiadau a phrofiad mewn adolygiad blynyddol.

Mae'r hawl i gwyno neu drefn gwyno yn gymwys i unrhyw un sy'n teimlo nad ydynt wedi eu trin yn deg neu eu bod wedi eu camddarlunio yn y broses asesu neu gymeradwyo. Caiff ymgeiswyr wybod hefyd am broses Adolygiad Annibynnol Penderfyniadau.

Adolygu'r gymeradwyaeth

Bydd rhieni mabwysiadu sydd wedi eu cymeradwyo ac yn aros lleoliad, yn cael adolygu eu cais o leiaf bob dwy flynedd, yn unol â'r gofynion rheoli o dan R.30 Rheoliadau Deddf Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005. Prif nod yr adolygiad yw penderfynu a yw darpar fabwysiadwyr yn dal yn 'addas i fabwysiadu', ac ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau.

Dylai'r panel mabwysiadu ystyried yr adroddiad adolygu a gwneud argymhellion wrth benderfynwr yr asiantaeth.

Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

Bydd mabwysiadwyr cymeradwy yn cael cefnogaeth o'r adeg pan gyflwynir y plentyn iddynt tan y bydd Gorchymyn Mabwysiadu yn cael ei wneud ac ar ôl hynny hefyd yn ôl yr angen. Bydd asesiad o anghenion cymorth y teulu yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleoli a byddant yn cael cynnig gwasanaethau cefnogi i ddiwallu'r anghenion asesedig hynny a fydd yn destun adolygiad.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn ymweld â mabwysiadwyr sydd â phlentyn wedi'i leoli bob wythnos tan yr adolygiad cyntaf ac yna yn unol ag argymhellion yr adolygiad, ac o leiaf bob 6 wythnos, ar ôl hynny nes bo'r Gorchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud. Ar gyfer mabwysiadwyr sy'n disgwyl am blentyn, byddai'r ymweliadau'n cael eu cynnal o leiaf

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
chwe gwaith y flwyddyn. Cynhelir ymweliadau ychwanegol pan fydd mabwysiadwyr yn cael eu hystyried ar gyfer plant neu pan fyddant yn mynd drwy'r weithdrefn gydweddu.

Unwaith y bydd plentyn wedi ei roi i'w fabwysiadu am ddeg wythnos, gellir gwneud cais am Orchymyn Mabwysiadu. Gwneir trefniadau gan y llys i gynnal Gwrandawriad Cyfarwyddyd Cyntaf ac ynddo, rhoddir manylion yr holl gamau perthnasol, a bydd y gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu'n cefnogi mabwysiadwyr drwy'r broses hon.

Yn unol â gofynion rheoli, mae gan bob asiantaeth Gyngorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu.

12. Y Panel Mabwysiadu

Mae cyfansoddiad, cylch gorchwyl a swyddogaethau paneli mabwysiadu'r asiantaethau unigol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cael eu gosod allan yn y:

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a Chanllawiau Statudol 2006
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygiad) 2012
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygiad) 2014

Mae'r panel mabwysiadu yn gorff o bobl sydd wedi'u grymuso i ystyried ac argymhell wrth yr asiantaeth:

- A ddylid rhoi plentyn i'w fabwysiadu, ac os hynny, a oes angen Gorchymyn Lleoli
- A yw darpar fabwysiadwr yn addas i fod yn rhiant mabwysiadu □ A fyddai darpar fabwysiadwr yn rhiant addas ar gyfer plentyn penodol

Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu plant o dramor.

Cyfeirir argymhelliad y panel at benderfynwr yr asiantaeth fydd yn penderfynu a yw'n cytuno ag argymhelliad y panel neu beidio. Dylai penderfynwr yr asiantaeth wneud penderfyniad ar argymhellion y panel o fewn 7 diwrnod gwaith i gyfarfod y panel. Mae angen i'r asiantaeth roi gwybod yn ysgrifenedig i'r rhai perthnasol (rhiant naturiol neu warchodwr o ran cynllun mabwysiadu posibl ar gyfer plentyn; darpar fabwysiadwr o ran ystyried addaswydd i fabwysiadu; rhiant naturiol neu warchodwr plentyn a darpar fabwysiadwr o ran argymhelliad cydweddu). Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn rhannu'r wybodaeth gyda'r plentyn mewn ffordd sy'n addas i'w oedran.

Mae paneli asiantaeth unigol yn cynnwys dim mwy na 10 aelod, (panel ar y cyd heb fwy nag 11 aelod) gan gynnwys:

- Dau weithiwr cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi gan bob asiantaeth, bob un ag o leiaf tair blynedd o brofiad ol-gymhwyso perthnasol mewn gwaith cymdeithasol gofal plant, gan gynnwys profiad uniongyrchol o waith mabwysiadu
- Cadeirydd Annibynnol
- Cyngorydd etholedig o gyngor pob asiantaeth.

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

- Y sawl a enwebwyd fel Cynghorydd Meddygol i bob asiantaeth. Gall y Cynghorydd Meddygol enwebu dirprwy yn ei absenoldeb ef neu hi, a bydd yn aelod a phleidlais ar y panel.
- O leiaf tri unigolyn annibynnol arall, nad ydynt yn gyflogedig gan y panel. Gall hyn gynnwys o leiaf 2 unigolyn sydd â phrofiad personol o fabwysiadu e.e. mabwysiadwr a rhywun sydd wedi ei fabwysiadu sydd dros 18 oed, ac arbenigwyr addysg neu arbenigwyr plant ac iechyd meddwl oedolion ifanc.
- Gallai aelodau eraill gynnwys rhiant naturiol plentyn sydd wedi ei roi i'w fabwysiadu

Bydd cynghorydd cyfreithiol a chynghorydd yr asiantaeth ar y panel hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd.

Mae pob aelod yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan yr asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ganllawiau mewn lle ynglŷn â gwrthdaro buddiannau posibl (yn bersonol ac yn broffesiynol) er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg. Pan fydd aelodau'r panel yn adnabod ymgeiswyr yn bersonol neu'r ffordd groes, gellir rhoi gwybod i aelodau'r panel ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud yn eu lle, sy'n golygu bod aelodau'r panel yn camu allan yn ystod trafodaeth yr asesiad hwnnw.

Caiff aelodau'r panel adroddiadau bob chwarter ynglŷn â gweithgareddau mabwysiadu'r asiantaeth. Maen nhw hefyd yn derbyn papurau a gwybodaeth yn rheolaidd i'w galluogi i gyfrannu at ffurfio polisi ac arferion yn ymwneud a mabwysiadu. Caiff materion arferion sy'n deillio o drafodaethau panel eu hystyried a chytunir ar gamau i hyrwyddo arfer gwell.

13. Mabwysiadu gydag Efen Dramor

Bydd y gwasanaeth a ddarperir yn cyd-fynd â gofynion statudol a safonau a chodau ymddygiad a gydnabyddir yn genedlaethol.

Bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth cwnsela a chynghori cychwynnol a fydd yn galluogi ymgeiswyr posibl i ddeall y broses o fabwysiadu plentyn o dramor a dod i benderfyniad deallus ynglŷn â pharhau â'u cais. Bydd darpar fabwysiadwyr ac aelodau o staff yn cael mynediad at IAC (Canolfan Fabwysiadu Trawswladol) er mwyn cael hyfforddiant a gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol am y broses mewn gwledydd unigol.

Pe bai'r darpar fabwysiadwr yn gwneud cais i gael ei asesu gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, bydd y gwasanaeth yn gwneud adroddiad astudiaeth gartref fel sy'n ofynnol ar gyfer cymeradwyo'r darpar fabwysiadwyr, gan gynnwys asesiad o'u hanghenion cymorth mabwysiadu.

Mae darpar fabwysiadwyr ar gyfer mabwysiadu trawsgwladol yn wynebu'r un hyfforddiant paratoi â mabwysiadwyr cartref, er bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei rhoi ynglŷn â materion diwylliannol a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â mabwysiadu trawsgwladol drwy IAC. Codir taliadau amrywiol ar y mabwysiadwyr yn dibynnu ar y wlad dan sylw. Caiff darpar fabwysiadwyr wybodaeth hefyd am y meini prawf penodol neu'r gweithdrefnau sydd i'w cymhwyso mewn gwahanol wledydd.

Cyn y gall ymgeiswyr fynd ymlaen i gael lleoli plentyn gyda nhw, mae'n rhaid eu cymeradwyo fel rhiant / rhieni mabwysiadu addas. Maen nhw angen gwybodaeth hefyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hasesu a'u cymeradwyo ac y bydd y plentyn yn cael yr awdurdod i fyw'n barhaol ar Ynysoedd Prydain os rhoddir hawl mynediad a bod Gorchymyn Mabwysiadu'n cael ei wneud.

Pan gaiff yr awdurdod lleol wybod bod y plentyn wedi cyrraedd i'r DU ac am fwriad y darpar fabwysiadwyr i wneud cais am orchymyn mabwysiadu, penodir gweithiwr cymdeithasol i'r plentyn a gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ar gyfer y darpar fabwysiadwyr, er mwyn cyflawni'r ymweliadau a'r adolygiadau statudol sy'n ofynnol.

14. Gofalwyr Maeth sy'n dymuno Mabwysiadu

Mae gan ofalwyr maeth sy'n gwneud cais ffurfiol i fabwysiadu plant yn eu gofal yr hawl i'r un wybodaeth a pharatoad a darpar fabwysiadwyr eraill.

Os yw'r plentyn wedi byw gyda gofalwyr maeth am lai na blwyddyn, byddant yn cael eu hasesu yn yr un ffordd ag unrhyw ddarpar fabwysiadwr arall. Ond, bydd yr asesiad yn canolbwyntio ar anghenion tymor hir penodol y plentyn dan sylw. Dyma rai o'r prif ystyriaethau y dylid eu hystyried:

- Ansawdd yr ymlyniad rhwng y plentyn a'r gofalwyr maeth.
- Dymuniadau a theimladau'r plentyn.
- A oes mabwysiadwyr eraill ar gael neu'n debygol o fod ar gael i'r plentyn.

Os yw gofalwyr maeth wedi bod yn gofalu am blentyn am 12 mis neu fwy, gallant wneud cais preifat yn uniongyrchol i'r llys a byddant yn cael eu hasesu cyn pen pedwar mis yn unol ag amserlenni Safonau Mabwysiadu Cymru.

15. Partner Rhiant

Pan fydd rhiant naturiol mewn partneriaeth newydd a bod eu partner yn dymuno mabwysiadu plentyn y rhiant naturiol, bydd yr asiantaeth fabwysiadu'n cwmsela'r teulu ynglŷn â'r broses ac yn trafod p'un a fyddai gorchymyn cyfreithiol yn fwy priodol. Ar ôl rhoi 3 mis o rybudd i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru gall Partner y Rhiant wneud cais uniongyrchol i'r llys a bydd adroddiad yn cael ei gwblhau gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn unol ag amserlenni Safonau Mabwysiadu Cymru.

16. Gwasanaethau i Deuluoedd Naturiol

Mae'r asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn ymgynghori'n llawn â rhieni naturiol ynglŷn â chynlluniau gofal eu plant.

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Yn rhan o'u hymrwymiad i gynnwys rhieni naturiol yn y broses fabwysiadu, caiff pob rhiant naturiol eu gwahodd i adolygiadau eu plant. Os mai mabwysiadu yw'r cynllun, byddant yn cael gwybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â'r hyn y mae mabwysiadu'n ei olygu. Bydd rhieni naturiol yn cael cyfle hefyd i ddarllen yr hyn sydd wedi ei ysgrifennu amdanynt yn Adroddiad Asesu'r Plentyn ar gyfer Mabwysiadu, a byddant yn cael eu hannog i fynegi eu barn ynglŷn a'r cynllun mabwysiadu.

Caiff aelodau teuluoedd naturiol eu hannog i roi gwybodaeth y bydd ei hangen ar y plentyn a fabwysiedir. Dylai gynnwys gwybodaeth am enedigaeth a bywyd cynnar y plentyn a fabwysiadir, hanes teulu, barn y teulu naturiol ynglŷn â mabwysiadu a gwybodaeth gyswllt a chyfredol amdanynt hwy a'u sefyllfa. Cedwir llythyrau agored hefyd gan y teulu naturiol ar ffeil fabwysiadu'r plentyn er mwyn i'r plentyn a fabwysiadir gael mynediad atynt os yw'n dymuno.

Cwmsela Rhieni Naturiol

Bydd rhieni naturiol unrhyw blentyn sy'n cael ei fadwysiadu drwy asiantaeth o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cael cynnig cymorth a chwmsela annibynnol drwy gyfrwng After Adoption.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnis o dan drefniant cytundeb rhwng Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ac After Adoption.

Cynigir cymorth hefyd i aelodau teulu naturiol ynglŷn a threfniadau cyswllt drwy gyfrwng Cydlynedd Cyswllt Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Gwasanaethau i Aelodau'r Teulu Naturiol

- Cyngor a gwybodaeth ynglŷn â'r mabwysiadu
- Cymorth i gysylltu â'r plentyn a fabwysiadwyd
- Gwasanaethau Cyfryngol

Babanod wedi eu Gadael

Mae adegau pan fydd rhieni'n dewis rhoi plentyn i'w fabwysiadu o'u gwirfodd. Mae'r asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cydnabod bod yn rhaid ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath yn sensitif iawn. Nid yw rhoi plentyn i'w fabwysiadu'n beth hawdd i famau na thadau naturiol.

Gwneir asesiad cychwynnol gan y tîm gofal plant perthnasol fydd yn chwilio pob opsiwn sydd ar gael, mewn cydweithrediad a gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Disgwylir y bydd cydweddiad gyda rhieni mabwysiadu addas yn cael ei nodi a'i gymeradwyo gan y panel o fewn tri mis i'r asiantaeth gytuno y dylid rhoi'r plentyn i'w fabwysiadu.

17. Gwasanaethau Cyfryngol

Mae Deddf Plant a Mabwysiadu 2002 yn cydnabod anghenion oedolion sydd wedi eu mabwysiadu, rhieni naturiol a pherthnasau sydd eisieu cyfle i chwilio am fwy o wybodaeth neu wneud cyswllt gyda'u teulu naturiol neu blentyn mabwysiedig neu adael iddynt wybod am eu dymuniad i gysylltu.

Nid oes gan berthnasau naturiol yr hawl i gael unrhyw wybodaeth am hunaniaeth allai adnabod yr oedolyn mabwysiedig. Ond, mae gan berthnasau naturiol hawl cyfreithiol i ofyn am 'wasanaeth cyfryngol' i ddarparu gwasanaethau gan gynnwys cwnsela, cymorth a chynghor, gwybodaeth a chwilio.

Mae cyfryngwr yn unigolyn neu'n sefydliad sy'n gweithredu fel rhywun yn y canol ar gyfer dau neu fwy o bobl. Mewn mabwysiadu, gall y sawl sy'n gweithredu fel cyfryngwr fynd at yr un sydd wedi ei fabwysiadu ar ran y perthynas naturiol.

Darperir y gwasanaeth hwn gan After Adoption o dan drefniant cytundeb gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

18. Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

Yn unol â gofynion rheoli, mae gan bob asiantaeth Gyngorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu amrediad o wasanaethau cymorth mabwysiadu i fodloni anghenion pobl gaiff eu heffeithio gan fabwysiadu. Gall y bobl gynnwys:

- plant wedi eu mabwysiadu neu blant wedi eu lleoli i'w mabwysiadu
- oedolion wedi eu mabwysiadu
- darpar Fabwysiadwr (Fabwysiadwyr) a rhieni mabwysiadu i blant o dan 18 oed
- llysblant neu blant naturiol rhieni mabwysiedig; a
- rhieni naturiol neu berthnasau, gan gynnwys brodyr neu chwiorydd (llawn neu hanner) i'r plentyn mabwysiedig neu bobl eraill y mae gan y plentyn mabwysiedig berthynas bwysig a nhw, o ran yr angen am gymorth i gefnogi trefniadau cyswllt.

Gellir gwneud cais am asesu anghenion cymorth mabwysiadu unrhyw bryd drwy gysylltu gyda'r Asiantaeth Fabwysiadu.

Gall y gwasanaethau cymorth mabwysiadu gynnwys:

- cymorth ariannol er mwyn cefnogi Lleoliad Mabwysiadu
- gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant sydd wedi eu mabwysiadu, rhieni mabwysiadu a rhieni naturiol neu gyn warchodwyr i blentyn sydd wedi ei fabwysiadu, drafod materion yn ymwneud a mabwysiadu
- Egwyl / seibiant byr

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

- cymorth, gan gynnwys gwasanaethau myfyrio, yn ymwneud a'r cyswllt rhwng plentyn sydd wedi ei fabwysiadu a rhieni naturiol, brawd neu chwaer naturiol, cyn warchodwr neu berthynas megis modryb, ewythr neu nain neu daid, i'r plentyn sydd wedi ei fabwysiadu (boed y rheiny'n waed llawn, hanner gwaed neu drwy briodas)
- gwasanaethau therapiwtig i blant wedi eu mabwysiadu, cymorth at ddiben sicrhau parhad y berthynas rhwng plentyn sydd wedi ei fabwysiadu a'i riant mabwysiadu, gan gynnwys hyfforddiant i rieni mabwysiadu er mwyn iddynt ateb unrhyw ofynion arbennig sydd gan y plentyn; a gofal seibiant
- cymorth pan fydd rhywbeth wedi tarfu ar leoliad mabwysiadu neu drefniadau mabwysiadu yn dilyn gwneud gorchymyn mabwysiadu, neu ei fod mewn perygl o ddiwydd, gan wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfryngu a threfnu a chynnal cyfarfodydd i drafod y tarfu; a
- chwrsela, cyngor a gwybodaeth.

Letterbox a Threfniadau Cysylltu:

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn cyflogi Cydlynnydd Cysylltu Ôl Fabwysiadu sy'n gyfrifol am reoli Cyswllt ar Ôl Mabwysiadu yn y chwech awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- prosesu achosion newydd,
- sgrinio'r holl bost a dderbynnir,
- rheoli'r gwaith o gadw cofnodion a ffeiliau 'Letterbox'
- Cysylltu â phawb dan sylw gan gynnwys plant/pobl ifanc, perthnasau naturiol, mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol;
- Cyfeirio unigolion at wasanaethau eraill os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnynt nad yw'n gysylltiedig â chyswllt ôl-fabwysiadu.
- Darperir cefnogaeth unigol i berthnasau naturiol a mabwysiadwyr i ysgrifennu llythyrau yn ôl yr angen, trefnir ymweliadau cartref.
- Ymgysylltiad mewn grwpiau cymorth rhieni naturiol

Cysylltu a goruchwyllo cysylltiadau uniongyrchol â pherthnasau naturiol i blant sydd wedi'u mabwysiadu

Gwasanaethau i Oedolion sydd wedi eu Mabwysiadu

Mae'r asiantaethau unigol o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth i oedolion sydd wedi eu mabwysiadu, fel a ganlyn:

Mabwysiadu Cyn Cychwyn

Mae angen i bobl a fabwysiadwyd cyn 12fed Tachwedd 1975 weld cynghorwr cyn y gallant gael mynediad at gofnodion eu geni.

Gall y rhai a fabwysiadwyd ar ol 11eg Tachwedd 1975, ddewis a ydyn nhw am weld cwnselydd neu beidio cyn cael yr wybodaeth fydd yn eu harwain at gofnod eu geni.

Ar ol cwnsela (os darperir hynny), bydd oedolion sydd wedi eu mabwysiadu'n cael cymorth i gael gwybodaeth am eu cofnod geni.

Diben y cwnsela yw sicrhau bod y sawl sydd wedi ei fabwysiadu wedi ystyried effeithiau posibl unrhyw ymholiadau, arno ef/hi ac ar eraill. Mae'n bwysig bod yr wybodaeth a geisir, ac y mae gan y sawl sydd wedi ei fabwysiadu'r hawl gyfreithiol i'w chael, yn cael ei rhoi mewn ffordd sensitif a phriodol.

Darperir y gwasanaeth hwn gan After Adoption o dan drefniant cytundeb gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Mabwysiadu Cyn-gychwyn

Ar ol cyrraedd 18 oed, mae gan y sawl sydd wedi ei fabwysiadu'r hawl i dderbyn y canlynol gan yr asiantaeth fabwysiadu:

- Copi o'i dystysgrif geni
- Yr wybodaeth a gynhwyswyd yn wreiddiol yn Adroddiad Asesu'r Plentyn ar gyfer ei Fabwysiadu a baratowyd ar gyfer y panel mabwysiadu.
- Copi o ddogfennau llys yn ymwneud â'r mabwysiadu nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth wedi ei gwarchod e.e. ffurflen gais, y Gorchymyn Mabwysiadu, adroddiadau gwarcheidwaid ac awdurdodau lleol
Rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i'r unigolyn a fabwysiadwyd am y gwasanaeth cwnsela sydd ar gael ond nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddo/iddi ei dderbyn cyn y gall dderbyn y wybodaeth a geisiwyd.

Darperir y gwasanaeth hwn gan After Adoption o dan drefniant cytundeb gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

19. Sylwadau a Chwynion

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi mabwysiadu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n rhoi pwyslais ar ddatrys cwynion yn gynnar. Os na ellir datrys unrhyw gwyn yn gyflym a bodloni'r achwynwr, gellir cychwyn ar broses "ail gam", sy'n golygu ymchwilio gan rywun annibynnol. Os nad oes bodlonrwydd eto, gellir mynd ymlaen i "drydydd cam" apêl.

Caiff pob cwyn ynglyn a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru eu monitro gan y Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid yn Wrecsam, a gellir cysylltu ag ef dros y ffon (am ddim) drwy ffonio 0800 587 6708 a bydd yn cysylltu gyda rhywun cyfatebol mewn asiantaethau eraill sy'n aelodau.

20. Adolygiad Annibynnol y Penderfyniad

Pan mae'r asiantaeth yn ystyried bod/nad yw'r darpar fabwysiadwyr yn addas i fabwysiadu plentyn, mae gofyn i'r asiantaeth anfon hysbysiad ysgrifenedig yn nodi nad yw'r asiantaeth yn bwriadu eu cymeradwyo. Mae hwn yn "benderfyniad cymhwyso". Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi 20 diwrnod i ymateb naill ai drwy gyflwyno unrhyw sylwadau i'r asiantaeth neu drwy gais i'r Panel Adolygu Annibynnol, sydd wedi ei gydlynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

21. Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae rol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ynglyn ag asiantaethau mabwysiadu wedi ei amlinellu yn Neddf Safonau Gofal 2000. Mae'r Ddeddf yn rhoi fframwaith rheoleiddio sy'n cynnwys, ymysg materion eraill; rheolaeth, staff, eiddo ac ymddygiad asiantaethau gofal cymdeithasol. Bydd yr Arolygiaeth yn monitro perfformiad awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Rol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yw:

AGGCC Rhanbarth Gogledd Cymru,
Adeiladau'r Llywodraeth,
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno LL31
9RZ

Ffon: 0300 062 5609

Ffacs: 0300 062 5030

E-bost: CSSIW.North@wales.gsi.gov.uk

22. MANYLION CYSWLLT

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 3ydd Llawr, Stryd y Lampint, Wrecsam.

LL11 1AR

Ffôn: 01978 295311 neu Rif Rhadffôn: 0800 085 0774

Ewch i'n gwefan: northwalesadoption.gov.uk

Manylion cyswllt Asiantaethau Mabwysiadu sy'n Aelodau o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

(a) **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Stryd y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR.

Rhif ffôn: 01978 292000

(b) **Cyngor Sir y Fflint:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant
Swyddfeydd y Sir, Stryd y Capel, Y Fflint. Sir y Fflint. CH6 5BD

Rhif ffôn: 01352 702121

(c) **Cyngor Sir Ddinbych:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl. LL18 3DP.

Rhif ffôn: 01824 706000

(d) **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Anecs Dinesig, Ffordd Abergele, Conwy. LL29 8AR

Rhif ffôn: 01492 574000

(e) **Cyngor Sir Gwynedd:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH


Rhif ffôn: 01286 672255

(f) **Cyngor Sir Ynys Môn:-**

Pennaeth Gwasanaethau Plant,
Swyddfeydd y Cyngor Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Rhif ffôn: 01248 750057

23. Strwythur Sefydliadol



24. Staff

Mae'r aelodau staff canlynol wedi eu cyflogi neu eu secondio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Rheolwr Gweithredol	1
Dirprwy Reolwr	2
Gweithwyr Cymdeithasol	11
Cyllid a chymorth gweinyddol	0.1
Swyddog Recriwtio	1
Swyddog Hyfforddi	1
Cydlynnydd Cyswllt	0.5
Gweinyddwyr	3.25
Cymorth TG	0.5

Fel yn achos pob staff gwaith cymdeithasol arall, mae gan y rheolwr gymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, a phrofiad helaeth mewn gwaith awdurdod lleol. Mae disgwyl i bob gweithiwr cymdeithasol wneud hyfforddiant ol-gymhwyso a chant eu hannog i gyflawni gwobr Ol Gymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys Ymarfer Dysgu.

Mae staff cyllid a staff gweinyddol yn brofiadol gydag amrediad o systemau TG ac mae ganddynt leiafswm o wobrau NVQ Lefel 2, gyda rhai yn meddu ar gymwysterau Busnes HNC.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Fuddsoddwr mewn Pobl a disgwylir i bob un o'i weithwyr wneud hyfforddiant perthnasol yn deillio o adolygiadau datblygu blynyddol.

Mae gofyn i'r holl staff sydd â mynediad at blant gael gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac maent yn destun gwirio hunaniaeth a chyflogaeth yn ogystal â geirdaon personol pan gânt eu penodi. Bydd gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn deall deddfau allweddol, confensiynau a pholisïau yn ymwneud a phlant a mabwysiadu. Bydd gweithwyr cymdeithasol sy'n brofiadol mewn gwaith mabwysiadu yn asesu darpar rieni mabwysiadu ar gyfer plant ac yn cynhyrchu adroddiadau mabwysiadu. Bydd y rhai sydd a llai na 3 blynedd o brofiad ol gymhwyso yn cael eu goruchwyllo gan yr Uwch Ymarferydd neu'r Rheolwr Tîm. Caiff gweithwyr cymdeithasol sy'n fyfyrwyr eu goruchwyllo'n ofalus gan weithwyr cymdeithasol mabwysiadu cymwys. Bydd cwnsela cofnodion geni nad yw'n cael ei wneud gan After Adoption yn cael ei wneud gan weithwyr cymdeithasol cymwys yn unig, wedi eu hyfforddi ac ennill profiad yn y math hwn o gwnsela a bydd ganddynt wybodaeth helaeth o'r deddfau sy'n ymwneud â mynediad at gofnodion geni ac effaith aduniad ar bob ochr.

North Wales Adoption Service / Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Awdurdod sy'n Cynnal – Strwythur Rheoli Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Susan Evans - Prif Swyddog Diogelu a Chymorth

Audrey Somerton-Edwards -

Pennaeth Gwasanaeth – Rhianta Corfforaethol (Cynghorydd Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu) Yn gyfrifol am fonitro a rheoli Gwasanaethau Maethu a Mabwysiadu, Cadeirydd Grŵp Rheolwyr Maethu Gogledd Cymru. Cymhwyster CQSW gyda phrofiad helaeth o reoli gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Cymwysterau a Phrofiad Staff Mabwysiadu Gogledd Cymru

Mandy Humphries- Rheolwr Gweithredol

Rheolwr Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Yn gyfrifol am reoli a datblygu'r Gwasanaeth. B.Ed. DipSW. Diploma mewn Anabledd Lluosog. ILM Tysysgrif Lefel 3 mewn Rheoli. Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol. Profiad blaenorol mewn gwasanaethau preswyl, anabledd, maethu a mabwysiadu plant dros y 25 mlynedd diwethaf.

Trish Welsh – Dirprwy Reolwr Tîm (Y Dwyrain)

Ar secondiad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cymhwyster CSS (1993) Athrawes Ymarfer. NVQ Aseswyr D32, D33. NEBS Cyflwyniad i Reoli. Chwe blynedd o brofiad blaenorol fel Uwch Ymarferydd mewn Tîm Mabwysiadu, Gwaith Cymdeithasol Gofal Plant a Rheolwr Preswyl. Yn gyfrifol am ddirprwyo yn absenoldeb y Rheolwr Gweithredol.

Stevie Thomas – Dirprwy Reolwr Tîm (Y Gorllewin)

Ar secondiad o Gyngor Sir Gwynedd, Dirprwy Reolwr Tîm Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru – ardal y Gorllewin (Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy). Ynghyd â Dirprwy Reolwr Tîm y Dwyrain, mae'n dirprwyo yn absenoldeb y Rheolwr Gweithredol.

Cymwysterau a Phrofiad

Cymhwysodd fel gweithiwr cymdeithasol yn 2001 a derbyniodd ei gymhwyster ymarfer athro yn 2005.

Rhwng 2001 a 2005 cwblhaodd PQSW 1,2,3,4,5 a 6 cyn mynd ymlaen i gwblhau Lefel 5 mewn rheoli. Mae ganddo Ddiploma mewn Ymarfer Niwro leithyddol ac mae wedi cwblhau hyfforddiant hyfforddi. Mae ganddo brofiad o weithio mewn tîm amddiffyn plant, Tîm Plant Sy'n Derbyn Gofal a Thîm Maethu cyn cael secondiad i Dîm Mabwysiadu Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2016. Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf mae wedi gweithio yn y sectorau statudol a phreifat. Mae ganddo 12 mlynedd o brofiad fel rheolwr gwaith cymdeithasol a thra'r oedd yn gweithio gydag asiantaeth maethu preifat roedd yn rheolwr cofrestredig gydag AGGCC.

Mae wedi cwblhau ac yn meddu ar gymeradwyaeth gofrestredig IOSH.

Lesley Davies

Gweithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn arbenigo mewn mabwysiadu. Hwyluso trefniadau cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol. Profiad helaeth yn y gwasanaethau plant, gan gynnwys iechyd ac anabledd plant. Cymhwyster CQSW.

Helen Kinney

Gweithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant Wrecsam. Cymhwyster DipSW. Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant profiadol gan gynnwys Amddiffyn Plant, Plant Sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a'r Llys. Tystysgrif Rheoli Cyflwyniadol NEBS. Diploma Estynedig.

Lisa Jenkins

Gweithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar secondiad i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth. Gweithiwr cymdeithasol cymwys sydd wedi ennill BA (Anrh) mewn Gwaith Cymdeithasol yn 2012 ym Mhrifysgol Prifysgol Glyndŵr ac wedi cofrestru â Chyngor Gofal Cymru. Enillodd Ôl Gymhwyster i Weithwyr Cymdeithasol yn 2014. Cafodd ei chyflogi gan Gyngor Sir Ddinbych o fis Medi 2012 tan fis Ionawr 2017 yn y Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth. Ei phrif gyfrifoldebau oedd ffurfio a meithrin perthynas waith â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i sicrhau canlyniadau positif i'r plant fel ffocws i'r ymyrraeth a ddarparwyd. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau fod plant sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu'n briodol, yn byw mewn teuluoedd parhaol, sefydlog, diogel a chariadus.

Greta Jones

Gweithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar secondiad i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth.

Mae ganddi radd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol o Brifysgol Bangor a Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol hefyd o Brifysgol Bangor. Mae wedi bod yn weithiwr cymdeithasol cymwys ers 1996 ac mae wedi cofrestru â Chyngor Gofal Cymru. Enillodd ôl gymhwyster (PQ1) yn 2008. Mae wedi

gweithio gyda Barnardo's am 16 mlynedd yn asesu a chefnogi teuluoedd, darparu rhaglenni rhianta a chefnogi teuluoedd sydd ag amrywiaeth o wahanol broblemau.

Hazel Davies

Gweithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Gyngor Sir Ddinbych. Ar secondiad gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth. Mae wedi bod yn Weithiwr Cymdeithasol cymwys ers 2011 ac wedi cwblhau'r ôl gymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol. Cyn ymuno â'r Gwasanaeth Mabwysiadu roedd yn Weithiwr Cymdeithasol yng Ngwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth Plant a Theuluoedd Sir Ddinbych am 4 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n gweithio gyda theuluoedd cymhleth ym mhob agwedd ar waith cymdeithasol statudol: plant mewn angen; amddiffyn plant; plant ag anghenion ychwanegol; plant sy'n derbyn gofal a gwaith cyfraith gyhoeddus.

Tracy Roberts

Gweithiwr Cymdeithasol (ar secondiad o Gyngor Sir Ddinbych). Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant. Cymhwyster DipSW a PQ1. Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant profiadol yn arbennig gwaith cymdeithasol yn y Tîm Dyletswydd ac Asesu. Gweithiwr Cymdeithasol Addysg am dair blynedd a Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn y gwasanaeth maethu am 7 mlynedd. Hefyd cymwysterau aseswyr NVQ D32 a D33. DDP Lefel 1.

Nicola Kernighan

Gweithiwr Cymdeithasol llawn amser (ar secondiad o Gyngor Sir y Fflint). Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, partneriaid rhieni, dod o hyd i deuluoedd i blant Sir y Fflint ac yn cynnig cefnogaeth mabwysiadu. Gradd Baglor, Cum Laude, mewn Gwaith Cymdeithasol (1997) o Brifysgol Atlantic Florida. Ugain mlynedd o brofiad gwaith cymdeithasol gyda Barnardo's, NSPCC ac Awdurdodau Lleol gan gynnwys gweithio gyda phlant ag anableddau difrifol, plant â diagnosis o iechyd meddwl, plant a phobl ifanc a effeithir gan drais yn y cartref, lles addysg a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae'n gofrestredig â Chyngor Gofal Cymru a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

Samantha Humphreys

Gweithiwr Cymdeithasol – Mae'n cael ei chyflogi gan Gyngor Sir y Fflint ac mae wedi cael secondiad i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant a atgyfeirir i'r gwasanaeth.

Cymwysterau / Profiad – BA(Anrh) Addysg Gynradd gyda statws athro cymwysedig, PGDip Gwaith Cymdeithasol. Mae Samantha wedi gweithio gyda phlant a theuluoedd dros y tair blynedd ar ddeg diwethaf mewn amryw o rolau gan gynnwys cefnogi teuluoedd, gweithiwr cefnogi pontio (oedolion), gweithiwr prosiect gofalwyr ifanc, gweithiwr y blynyddoedd cynnar, cydlynedd cyfarfodydd a gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu.

Sara Williams

Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu – ar secondiad o Gyngor Sir Gwynedd, llawn amser. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant.

Profiad: Mae gan Sara 12 mlynedd o brofiad o weithio yng Ngwasanaeth Plant a Theuluoedd Gwynedd. Cymwysterau: BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor 2009

Carolyn Jones

Ar secondiad o Gyngor Sir Ynys Môn, llawn amser. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant. Cymhwyster DipSW a PQ1. Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant profiadol yn arbennig gwaith cymdeithasol yn y Tîm Asesu Teuluoedd.

Lydia Murphy

Ar secondiad llawn amser o Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'n cynnal asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr, cynnig cefnogaeth mabwysiadu a dod o hyd i deuluoedd i blant. Cymhwyster DipSW a PQ1. Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant profiadol yn arbennig gwaith cymdeithasol yn y Tîm Dyletswydd ac Asesu, gan gynnwys Amddiffyn Plant a gwaith llys ers cymhwyso yn 2005.

Wendy Thomas

Swyddog Recriwtio – yn gyfrifol am ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a recriwtio i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sy'n gwneud ymholiad ynglŷn â mabwysiadu.

Denise Roberts

Fel Swyddog Hyfforddiant Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru mae'n gyfrifol am nodi, trefnu, hwyluso a gwerthuso hyfforddiant sy'n ymwneud â mabwysiadu ar draws y chwech awdurdod yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys anghenion hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, Aelodau'r Panel Mabwysiadu, Gweithwyr Cymdeithasol Gofal Plant, Darpar Fabwysiadwyr a Mabwysiadwyr Cymeradwy. Mae'n Weithiwr Cymdeithasol cymwys sydd â 15 mlynedd o brofiad ar ôl ymarfer mewn Maethu a Mabwysiadu dros y 10 mlynedd diwethaf. DDP Lefel 1.

Frances Williams

Cydllynydd Cysylltu Ôl Fabwysiadu - yn gyfrifol am reoli Cyswllt ar Ôl Mabwysiadu yn y chwech awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Cymwysterau / Profiad -

Dros 20 mlynedd o brofiad o weithio gyda phlant a theuluoedd. Enillodd ddiploma NNEB a gweithiodd mewn amryw o leoliadau gofal plant. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda phlant ag anawsterau ymddygiad a rhedeg rhaglenni rianta unigol ac mewn grwpiau. Wedi cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol cofrestredig 10 mlynedd yn ôl ac wedi cael profiad o weithio ym meysydd Amddiffyn Plant, Maethu a Mabwysiadu.

Wedi ennill cymhwyster PQ1. Wedi ennill cymhwyster Sicrwydd Ansawdd Asesu Hyfforddiant (TAQA). Mae hyn wedi ei galluogi i fod yn athrawes ymarfer ac mae wedi asesu nifer o fyfyrwyr. Wedi bod yn gwirfoddoli i fwydo pobl ddigartref ers dros 10 mlynedd ac wedi cael mwy o brofiad yn gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.

Claire Pearce

Cynorthwy-ydd Gweinyddol y Cydlynnydd Cyswllt. Yn gyfrifol am reoli a chydlynu'r trefniadau cyswllt blwch post o ddydd i ddydd, bwydo cytundebau i mewn i'r gronfa ddata CHARMS. Yn cael ei goruchwyllo gan Weithiwr Cymdeithasol Cefnogi Mabwysiadu.

Cymwysterau a phrofiad – NVQ Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes, NVQ Lefel 2 mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid a chymwysterau RSA III.

Carole Langford

Rheolwr Cymorth Busnes – yn gyfrifol am dalu cymorth ariannol i fabwysiadwyr a gofalwyr maeth. Mae Carole yn goruchwyllo'r staff gweinyddol eraill yn y gwasanaeth ac yn rhoi arweiniad i fabwysiadwyr ar faterion sy'n ymwneud â hawliau budd-daliadau. NVQ4, RSA3, HNC (Busnes) a phrofiad helaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Larry Groom

Cynorthwy-ydd Gweinyddol sy'n bennaf gyfrifol am reoli system TG y gronfa ddata CHARMS. Mae hefyd yn gyfrifol am goladu data ar gyfer adroddiadau rheoli. Dosbarthu adroddiadau i'r Paneli Mabwysiadu a lledaenu gwybodaeth a gynhrychir o ganlyniad i waith y Panel. NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes. RSA3, CLAIT II, Microsoft Office Suite (dim Front Page) a CHARMS.

Sarah Picken

Yn bennaf gyfrifol am ddsbarthu adroddiadau i'r Paneli Mabwysiadu a lledaenu gwybodaeth a gynhrychir o ganlyniad i waith y Panel. Mae hefyd yn gyfrifol am goladu data ar gyfer adroddiad rheoli. NVQ Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes.

Manon Roberts

Cynorthwy-ydd gweinyddol rhan-amser, yn bennaf gyfrifol am goladu a dosbarthu adroddiadau ar gyfer y Panel Mabwysiadu a lledaenu gwybodaeth sy'n cael ei gynhrychu o ganlyniad i waith y Panel; coladu data o adroddiadau rheoli. Hefyd yn gyfrifol am wirio cofnodion Awdurdodau Lleol a chynnal chwiliadau Ymholiadau Geni. Cymorth gweinyddol i'r Gwasanaeth Mabwysiadu yng Ngwynedd.

Cymwysterau / Profiad. Lefel A mewn Technoleg Gwybodaeth a Lefel AS mewn NVQ Lefel 2 Gweinyddu Busnes; gan gynnwys Prosesu Geiriau; Cynhrychu Testun; Storio, adalw ac archifo gwybodaeth; Cynhrychu dogfennau; sgiliau allweddol mewn gweithio ag eraill. Profiad: wedi gweithio am 2 flynedd (rhan amser) fel clerch i'r tîm plant a theuluoedd.

Jon Allen

Yn cael ei gyflogi fel Cynorthwydd Gweinyddol Systemau Dros Dro, yn gyfrifol am gynorthwyo ag adroddiadau system gronfa ddata CHARMS, hefyd yr ochr weithredol, cynnal a chadw cyffredinol a gweinyddu;

Cymwysterau/profiad – **Gradd BA (Anrh)** Llenyddiaeth Saesneg; 2 flynedd – fel dadansoddwr data

Blwyddyn a 4 mis – fel rheolwr cronfeydd data SQL / gweinyddu systemau

Gweithwyr Cymdeithasol Sesiynol

Pat Fairclough DisSW

Morwenna Berry DipSw

Pan fydd staff ychwanegol yn brin a phan fydd cyllid ar gael bydd y gwasanaeth yn cyflogi staff o asiantaeth ddibynadwy sydd wedi bod yn destun gwiriadau uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon ac sydd â phrofiad perthnasol mewn mabwysiadu.